Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 23 Ionawr 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(108)v2

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)

Gweld y cwestiynau

### 3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)

Gweld y cwestiynau

### 4. Dadl ar Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Brentisiaethau yng Nghymru (60 munud)

NDM5142 Nick Ramsay (Mynwy)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr ymchwiliad i Brentisiaethau yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Hydref 2012.

Er gwybodaeth: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 16 Ionawr 2013.

Dogfennau ategol:

[Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes]
[Ymateb Llywodraeth Cymru]

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM5144 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn mynegi pryder dwys ynghylch effaith negyddol bosibl y cynigion i ad-drefnu GIG Cymru ar gleifion.

2. Yn nodi pryderon eang ynghylch y ffordd anghyson y mae byrddau iechyd lleol yn cynnwys y cyhoedd yn y broses o newid y GIG.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro'i harweiniad ar gynnwys y cyhoedd yn y broses o newid gwasanaethau'r GIG i sicrhau na ellir anwybyddu barn y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyfodol gwasanaethau'r GIG.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn gallu ateb unrhyw alw ychwanegol a allai godi yn sgîl ad-drefnu GIG Cymru cyn y caiff unrhyw newidiadau eu gwneud.

**6. Dadl Plaid Cymru (60 munud)**

**NDM5146 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod ac yn dathlu cyfraniad enfawr y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol i economi a diwylliant Cymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau llwyddiant parhaus y sectorau hyn drwy:

a) adolygu gweithrediad adroddiad Hargreaves, 'Calon Cymru Ddigidol', i sicrhau bod ei pholisïau'n berthnasol a chyfoes, yn benodol o ran datblygu system breindaliadau hawliau perfformio i Gymru; a

b) sicrhau bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn adolygu ei strategaeth ar ffurfiau celf yn ystod 2013 ac yn rhoi sylw llawn i'r angen i gynyddu cyfranogaeth yn y celfyddydau, annog pobl ifanc i ymgysylltu â chreadigrwydd, hyrwyddo rhagoriaeth artistig yn y Gymraeg a'r Saesneg a gosod Cymru ar lwyfan y byd.

Gellir dod o hyd i adroddiad Hargreaves 'Calon Cymru Ddigidol' drwy fynd i:

http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/publications/heartofdigitalwales/?lang=en<\}85\{>http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/help/economicrenewal/?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn edrych ymlaen at weld adroddiad yr ymchwiliad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Gyfranogiad yn y Celfyddydau yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y cynnydd a wnaed yng nghyswllt argymhellion 4, 12, 19, 22 a 23 ymchwiliad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i'r Rhagolygon ar gyfer Dyfodol y Cyfryngau yng Nghymru.

Gellir gweld adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s7672/Dyfodol%20y%20Cyfrynga

u%20yng%20Nghymru%20-%20Adroddiad%20-%20Mai%202012.pdf

Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella argaeledd seilwaith digidol sy'n gallu cefnogi'r celfyddydau a diwydiannau creadigol drwy gynyddu'r mynediad at fand eang cyflym a gwella mynediad at sianeli Cymreig drwy deledu digidol.

Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd mwy o gyfranogiad yn y celfyddydau yn creu sylfaen gynaliadwy ar gyfer y Diwydiannau Creadigol yn y dyfodol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer cyfranogi sy'n cynnwys llywodraeth leol, y sector gwirfoddol a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

**Cyfnod Pleidleisio**

**7. Dadl Fer (30 munud)**

NDM5145 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):

Arbennig, Unigryw ac mewn Argyfwng

Y bygythiadau i ddiwydiant Cig Oen Cymru a'r angen i weithredu.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 29 Ionawr 2013

**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 9 Ionawr 2013 i'w hateb ar 23 Ionawr 2013**

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

**Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**1. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraniad cyllid Llywodraeth Cymru at Ymddiriedolaeth Thalidomide. OAQ(4)0218(HSS)

**2. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi dyrannu'r arian cyfalaf angenrheidiol i alluogi byrddau iechyd lleol i gyflawni eu cynlluniau ail-strwythuro arfaethedig. OAQ(4)0229(HSS)**W**

**3. Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chanfyddiadau Adroddiad Dilnot o ran talu am ofal hirdymor i bobl hŷn. OAQ(4)0222(HSS)

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd agor meddygfeydd meddygon teulu yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0217(HSS)

**5. Elin Jones (Ceredigion):** Beth yw blaenoriaethau adran y Gweinidog am y chwe mis nesaf. OAQ(4)0214(HSS)**W**

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganolfannau argyfyngau lleol mewn ysbytai yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0215(HSS)

**7. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i atal pobl ifanc rhag dechrau ysmygu. OAQ(4)0224(HSS)

**8. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau iechyd ar gyfer pobl Aberafan yn 2013. OAQ(4)0223(HSS)

**9. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0219(HSS)

**10. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fyrddau iechyd Cymru yn cydweithio ar draws ffiniau. OAQ(4)0228(HSS)

**11. Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad Gweinidogol o Wasanaethau Ambiwlans Cymru. OAQ(4)0220(HSS)

**12. Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd):** Pa gamau gweithredu y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ymwreiddio egwyddorion cyd-gynhyrchu wrth lunio a darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. OAQ(4)0226(HSS)

**13. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau i blant sydd â pharlys yr ymennydd. OAQ(4)0225(HSS)

**14. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo bwyta'n iach yng Nghymru. OAQ(4)0212(HSS)

**15. Nick Ramsay (Mynwy):** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud er mwyn helpu i leihau amseroedd aros yn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. OAQ(4)0216(HSS)

**Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol**

**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 16 Ionawr 2013**

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda'r proffesiwn cyfreithiol. OAQ(4)0043(CGE)**W**

**2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am ei ddyletswyddau o ran rheoliadau. OAQ(4)0044(CGE)**W**

**Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad**

**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 16 Ionawr 2013**

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Comisiwn amlinellu sut y mae'n helpu staff i ddysgu Cymraeg. OAQ(4)0069(AC)**W**

**2. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am ddarparu bwyd ar ystad y Cynulliad. OAQ(4)0068(AC)**W**